Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd : | Prentis Chwaraeon, Hamdden a Lles Actif Lefel 2 (Amrywiaeth a Chynhwysiant) | Lleoliad : | Caerdydd |
| Adran : | Chwaraeon | Cyflog : | Prentis Blwyddyn 1: £14,181 y flwyddyn |
| Oriau Gwaith : | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | Cytundeb : | Penodol, 13 mis |
| Yn adrodd i : | Rheolwr / Swyddog Datblygu Chwaraeon | Rheolaeth Llinell : | Dim |

Prif bwrpas y swydd:

Os nad ydych yn rhugl yn y Gymraeg mae hon yn gyfle ffantastig i ddysgu Cymraeg fel rhan o'r rôl a chwarae rhan hanfodol yn ein nod i gyrraedd, cynnwys a chynnig cyfleoedd siapio-bywyd i blant a phobol ifanc o bob cefndir diwylliannol a chymdeithasol.

Nod y swydd fydd cynyddu cyfranogaeth plant a phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol mewn gweithgaredd chwaraeon cyson, gan annog yr iaith Gymraeg wrth gweithio tuag at brentisiaeth Chwaraeon, Hamdden a Lles Actif Lefel 2.

---

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Gweithio tuag at brentisiaeth Chwaraeon, Hamdden a Lles Actif Lefel 2.
2. Cynorthwyo sesiynau wythnosol a chlybiau yn ystod a thu allan i oriau dysgu.
3. Cynorthwyo gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol.
4. Creu a datblygu cynlluniau sesiwn sy'n cyd-fynd â'r gweithgareddau.
5. Cydweithio gyda staff yr adran ac ysgolion er mwyn annog plant a phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol i ymgymryd â chyfleoedd Chwaraeon yn ei ardal.
6. Cydweithio gyda gwirfoddolwyr a hyfforddwyr o fewn clybiau a digwyddiadau.
7. Hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg o fewn ein gwasanaethau.
8. Cefnogi digwyddiadau chwaraeon rhanbarthol a chenedlaethol o dan arweiniad adran digwyddiadau.

Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| 1. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char, neu'r gallu i deithio'n gwbl hyblyg ac annibynnol er mwyn cyflawni'r swydd hon.<br>2. Bydd angen dilyn nifer o gyrsiau hyfforddiant perthnasol ar gyfer datblygu yn y swydd.<br>3. Bydd angen i'r ymgeisydd bod yn 16+. | 1. Bydd cymwysterau yn y maes chwaraeon a hamdden o fantais.<br>2. Byddai profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc o fantais.<br>3. Bydd profiad o hyfforddi o fantais. |

Hyfforddiant:

Fel rhan o'r brentisiaeth bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd llwyddiannus, Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â'r holl hyfforddiant a gynigir.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymgymryd â Fframwaith Prentisiaeth Lefel 2 Chwaraeon, Hamdden a Lles Actif.

Mae'r fframwaith yn cynnwys y cymwysterau canlynol:

- NVQ Arwain Gweithgareddau
- Tystysgrif mewn Hyfforddi
- Sgiliau Hanfodol

Yn ogystal, darperir yr hyfforddiant ychwanegol isod:

- Cwrs Diogelu Plant
- Cwrs Cymorth Cyntaf
- Iechyd a Diogelwch
- Ymwybyddiaeth Cyffuriau Mewn Chwaraeon
- Ymarfer Myfyriol
- Gweithdai amrywiol eraill yn cynnwys iechyd meddwl
- Cymwysterau Chwaraeon Penodol

Mae canran fawr o’r hyfforddiant yn digwydd yn y gweithle ac o fewn gweithdai a threfnir yn ystod oriau gwaith. Er hyn, disgwylir i brentisiaid gwblhau darnau o’r gwaith cwrs y tu allan i oriau gwaith yn rheolaidd. Bydd gan bob prentis mynediad at liniadur gwaith er mwyn gwneud hynny.

Mae’r Adran Brentisiaethau yn falch iawn o allu cynnig cymorth arbennig er mwyn i bob prentis lwyddo. Er bod darnau o waith ysgrifenedig yn rhan o’r cwrs, ni ddylai hwn fod yn rhwystr i ymgeiswyr ac mae modd i ni wneud addasiadau a chynnig cymorth ychwanegol pan fo’n briodol.

Yn ogystal â’r hyfforddiant uchod, rhoddir hyfforddiant mewnol ar weithgareddau amrywiol yr adran gan gynnwys trefnu ac arwain gweithgareddau, cynlluniau gwyliau a chystadlaethau rhanbarthol a chenedlaethol.

**Os nad ydych yn rhugl yn y Gymraeg:** bydd amser penodol yn cael ei ddynodi yn wythnosol er mwyn canolbwyntio a datblygu eich sgiliau iaith Gymraeg. Yn ddibynnol ar eich man cychwyn, byddech yn mynychu dosbarthiadau er mwyn hybu eich sgiliau ieithyddol ac yn cael eich annog i ddefnyddio’r iaith yn eich gweithgareddau bob dydd

---

Newidiadau i’r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Hydref 2025 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

---

Bydd angen i’r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

---

Gwiriadau Perthnasol: Bydd yn ofynnol i’r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).